



**Pennaeth – Bethan Jones M.Add CPCP - Headteacher**

**Tel/Fax: 01745 560433**

**Ffôn/Ffacs: 01745 560433**

**e-bost/e-mail: [office@mornant.flintshire.sch.uk](mailto:office@mornant.flintshire.sch.uk)**

## Ysgol Goedwig

Annwyl Rieni

Dechreuodd yr Ysgol Goedwig yn Sweden yn 1950au i ddysgu plant am yr awyr agored. Mabwysiadwyd y syniad yn y gwledydd Scandinafiaidd eraill a gwledydd Ewrop a daeth yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn.

Mae'r Ysgol Goedwig yn ffordd unigryw o gynyddu annibyniaeth, hyder a hunan werth mewn plant. Mae'n cynnig cyfleoedd cyson i blant weithio a mwynhau yn yr awyr agored trwy ystod o brofiadau. Mi fydd y profiadau yn rhoi cyfle i'r plant ddatblygu:

- Sgiliau Corfforol
- Iechyd a Lles
- Hunan werth, annibyddiaeth a hyder
- Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu
- Defnyddio'r synhwyrâu
- Creadigrwydd a dychymyg

Mae eich plentyn yn cymeryd rhan mewn cyfres o sesiwn Ysgol Goedwig

Yn Ysgol Mornant  
Ar fore Dydd Gwener

Rhan ganolog o brofiad yr Ysgol Goedwig yw bod plant yn profi'r awyr agored ym mhob tywydd. Ar wahân i dywydd gwyntog iawn neu storm fellt a tharannau, mi fydd eich plentyn tu allan yn ystod y sesiynau, hyd yn oed os bydd rhaid cynnal sesiynau byrrach.

Dylai plant gyrraedd yr ysgol yn eu dillad ysgol goedwig a dod â esgidiau mewn bag, i newid I ar ôl y sesiwn.



**Cyfeirir pob gohebiaeth i'r Pennaeth**  
**Please address all communications to the Headteacher**



A fyddwch cystal â sicrhau fod gan eich plentyn ddillad addas ar gyfer pob tywydd e.e. haenau isaf, dillad cynnes, sgarff, menig, het, dillad glaw ac wellingtons. Mae trowsus glaw yn bwysig iawn. Os ydych chi'n cael problemau gyda darparu unrhyw ran o'r eitem, rhowch wybod i ni mae gennym ni ychydig yn yr ysgol

Yn gywir

Bethan Jones

---

Enw'r Plentyn: \_\_\_\_\_ Dosbarth: \_\_\_\_\_

Rwyf yn caniatáu i fy mhlentyn gymeryd rhan mewn sesiynau Ysgol Goedwig yn gyson yn ystod y flwyddyn academaidd.

Rwyf yn deallt y bydd y sesiynau yn cael ei arweinio gan Arweinydd Ysgol Goedwig, ac mi fydd fy mhlentyn yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rato o o leiaf 2 oedolyn i 8 o blant. Rwyf hefyd yn deallt ar adegau mi fydd fy mhlentyn yn cael cyfle i weithio efo offer llaw a thân ar lefel yn addas iddyn nhw.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

<https://ysgolgymraeqmornant.weebly.com/> Mae gwybodaeth hon ar y wefan



*Cyfeirer pob gohebiaeth i'r Pennaeth*  
*Please address all communications to the Headteacher*

